



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – Cyngor Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Cyhoeddwyd: Medi 2018



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

. This document is also available in English.

Y tîm Deloitte a oedd yn gyfrifol am gyflawni'r gwaith yn cynnwys Ian Howse (Partner yr Ymgysylltiad), Lauren Parsons (Rheolwyr yr Ymgysylltiad) ac Alex Watts (Arweinydd y tîm).

Cynnwys

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi **adroddiad archwilio diamod** ar eich datganiadau ariannol. Nid oes unrhyw faterion i'ch hysbysu amdanynt cyn eu cymeradwyo.

Adroddiad cryno

| | |
|--|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Statws yr archwiliad | 4 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig | 5 |
| Canlyniadau'r archwiliad | 5 |
| Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2017-18 | 9 |
| Annibyniaeth a gwrthrychedd | 9 |

Atodiadau

| | |
|--|----|
| Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol | 10 |
| Atodiad 2 - Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Gyngor Gwynedd | 13 |
| Atodiad 3 – Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft a ddylai gael ei ddwyn i sylw'r Pwyllgor Archwilio | 16 |
| Atodiad 4 – Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2017-18 | 17 |
| Atodiad 5 – Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2016-17 a 2015-16 | 19 |

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

- 1 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi barn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2018 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.
- 2 Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.
- 3 Y swm meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i Gyngor Gwynedd yw £7,975,000. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.
- 4 Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.
- 5 Mae'r adroddiad hwn yn nodi, i'w hystyried, y materion sy'n deillio o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2017-18, y mae angen cyflwyno adroddiad arnynt o dan ISA 260.

Statws yr archwiliad

- 6 Cawsom y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 ar 18 Mehefin 2018, ac rydym bellach wedi cwblhau'r gwaith archwilio i raddau helaeth, ac ar y dyddiad y gwnaethom gyflwyno'r adroddiad hwn, roedd y gwaith archwilio canlynol heb ei gwblhau:
 - Profion terfynol ar ôl digwyddiadau mantolen;
 - Cysoni Cofrestr Asedau Sefydlog ac ymholiad Nodyn 15;
 - Cyflawnrwydd profion darpariaeth dyledion drwg;
 - Terfynu profion nodyn 30;
 - Clirio nodiadau adolygu;
 - Terfynu adolygiad sicrwydd ansawdd annibynnol;
 - Adolygu ail fersiwn o'r cyfrifon; a
 - Derbyn llythyr cynrychiolaeth.
- 7 Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae'r tîm archwilio eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r rheolwyr.

Adroddiad cryno

Adroddiad archwilio arfaethedig

- 8 Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi **adroddiad archwilio diamod** ar y datganiadau ariannol unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr cynrychiolaeth i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn [Atodiad 1](#).
- 9 Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn [Atodiad 2](#).

Canlyniadau'r archwiliad

Camddatganiadau heb eu cywiro

- 10 Nodwn isod y camddatganiadau a nodwyd gennym yn y datganiadau ariannol, a drafodwyd gyda'r rheolwyr ond maent yn parhau heb eu cywiro, a gofynnwn i'r rhain gael eu cywiro. Os penderfynwch beidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnwn eich bod yn rhoi'r rhesymau i ni am beidio â chywiro yn y llythyr cynrychiolaeth.
 - Yn 2017/18 gwnaeth y Cyngor daliad o £8.627m i gronfa bensiwn Gwynedd i dalu am elfen sefydlog o gyfraniadau'r cyflogwr am y cyfnod o 2017/18 i 2019/20. Gwnaeth y Cyngor gyfrifo am hyn drwy gynnwys y swm llawn yn y gwariant ac ariannu 2/3 o'r swm (£5,640m) o'r reserfau a glustnodwyd (Ymrwymadau yn Berthnasol i'r Gronfa Bensiwn). Ar ôl cymryd i ystyriaeth y balans ar y reserfau a glustnodwyd, mae hyn wedi arwain at gronfa negyddol o £4.256m.

Y canlyniad yw, y dylai'r £5.640m a godir ar y reserfau a glustnodwyd cael ei ariannu o gronfa arall sydd a cyfanswm digonol. Bydd hyn yn osgoi reserfau negyddol. Gan mai gwall dosbarthiad yw hwn o fewn manylion y cronfeydd y gellir eu defnyddio (nodyn 10), mae'r rheolwyr wedi dewis peidio ag addasu'r cyfrifon ar gyfer y gwall hwn.

Camddatganiadau a gywirwyd

- 11 Mae un camddatganiad a gywirwyd gan y rheolwyr, ac ystyriwn y dylid tynnu eich sylw ato gan ei fod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Fe'i nodir gydag esboniadau yn [Atodiad 3](#).

Risgiau Sylweddol

- 12 Yn ein Cynllun Archwilio Ariannol, gwnaethom nodi gwybodaeth am y risgiau archwilio sylweddol a nodwyd yn ystod ein proses gynllunio. Mae'r tabl isod yn nodi canlyniad ein gweithdrefnau archwilio mewn perthynas â'r risgiau hynny. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Cynllun Archwilio Ariannol.

Adroddiad cryno

| Risgiau potensial a asesir | Profi a gwblhawyd yng Nghyngor Gwynedd |
|---|--|
| <p>Rheolwyr yn anwybyddu rheolaethau</p> <p>Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid ar hyn o bryd. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33].</p> | <p>Cyflawnodd y tîm archwilio y gweithdrefnau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• profwyd priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol gan ddefnyddio dull gwell o ddadansoddi data i ddadansoddi holl gynnwys y dyddlyfrau ar gyfer nodweddion o ddiddordeb archwilio;• cynhaliwyd profion o'r gwaith cynllunio a gweithredu rheolaethau dros gofnodion mewn dyddlyfrau i'r cyfrifyfr ariannol;• profwyd priodoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a• gwerthuswyd y rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol gan gynnwys rhai â phartion cysylltiedig. <p>Ni nodwyd unrhyw faterion o ganlyniad i'n profion.</p> |
| <p>Cyflawnder gwariant a'r dyddiad cau ar gyfer gwariant</p> <p>Rydym wedi nodi bod risg sylweddol yn gysylltiedig â chyflawnder gwariant am y gall fod cymhelliant i beidio â chofnodi'r holl wariant er mwyn i'r Cyngor gofnodi sefyllfa fwy ffafriol ar ddiwedd y flwyddyn.</p> | <p>Cyflawnodd y tîm archwilio y gweithdrefnau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• cynnal profion o'r gwaith cynllunio a gweithredu rheolaethau er mwyn sicrhau cyflawnder gwariant;• cynnal profion archwilio penodol mewn perthynas â chyflawnder gwariant; a• chynnal profion manwl mewn perthynas ag amcangyfrifon a dyfarniadau rheolwyr fel y nodir yn y risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau a nodir uchod. <p>Rydym yn nodi, yn ystod y gwaith maes archwilio terfynol, bod y risg o ran cyflawnrwydd gwariant wedi'i binbwyntio i falansau croniadau a darpariaethau diwedd y flwyddyn, gyda'r gweithdrefnau a gwblhawyd uchod wedi'u teilwra'n unol â hynny.</p> <p>Ni nodwyd unrhyw faterion, er bod argymhellion wedi'u codi mewn perthynas â rheolaethau yn y maes hwn.</p> |
| <p>Prisiadau Eiddo</p> <p>Mae'r Cyngor yn cwblhau proses brisio lawn gylchol lle y caiff dosbarthiadau o asedau eu prasio'n llawn bob pum mlynedd, gyda</p> | <p>Cyflawnodd y tîm archwilio y gweithdrefnau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• profion o'r gwaith cynllunio a gweithredu mewn perthynas â'r broses prasio eiddo |

Adroddiad cryno

phrasiadau eraill yn cael eu cwblhau gan briswyr mewnol.

Mae prasiadau eiddo, yn ôl eu natur, yn cynnwys dyfarniadau ac amcangyfrifon a gan fod prasiadau tir ac adeiladu ym mis Mawrth 2017 yn cyfateb i £288 miliwn, gall newidiadau mewn dyfarniadau ac amcangyfrifon gael effaith berthnasol ar y gwerth cario.

gan gynnwys nodi lleihad mewn gwerth y tu allan i'r broses brisio;

- Gweithio gydag arbenigwyr prasio mewnol er mwyn asesu rhesymoldeb tybiaethau sy'n sail i'r prasiad; ac
- Orlhain yr holl symudiadau prasio drwy'r datganiadau ariannol er mwyn sicrhau eu bod wedi'u datgan yn deg.

Ni nodwyd unrhyw faterion o ganlyniad i'n profion.

Adroddiad cryno

Materion pwysig eraill sy'n deillio o'r archwiliad

13 Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion o bwys sy'n codi. Nid oedd unrhyw faterion yn codi yn y meysydd hyn eleni:

- **Nid oes gennym unrhyw bryderon ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol.** Daethom i'r casgliad fod y wybodaeth a roddwyd yn berthnasol, dibynadwy, cymaradwy, ac yn hawdd ei deall. Daethom i'r casgliad bod polisïau cyfrifyddu ac amcangyfrifon yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol heb duedd, ac yn deg a chllir.
- **Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.**
- **Ni wnaethom drafod na gohebu â rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.**
- **Nid oes unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.**
- **Ni wnaethom nodi unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol.**
- **Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio, gael eu cyfleu i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.**

Adroddiad cryno

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2017-18

- 14 Amlinellir yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ariannol yn **Atodiad 4**. Mae'r rheolwyr wedi ymateb iddynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol arnynt yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf. Os bydd unrhyw gamau gweithredu yn weddill, byddwn yn parhau i fonitro cynnydd ac yn adrodd arno yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

Annibyniaeth a gwrthrychedd

- 15 Fel rhan o'r broses derfynol, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.
- 16 Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac, yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu. Nid oes unrhyw gydbertnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Chyngor Gwynedd sy'n effeithio ar ein gwrthrychedd na'n hannibyniaeth yn ein barn ni.

Atodiad 1

Llythyr Sylwadau Terfynol

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

CAERDYDD

CF11 9LJ

27 Medi 2018

Sylwadau ar ddatganiadau ariannol 2017-18

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt ac i ba raddau y maent wedi'u paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau Rheolwyr

Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran y canlynol:

- Paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg yn unol â hynny.
- Cynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a roddwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- Mynediad llawn i'r canlynol:
 - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
 - gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a
 - mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt, yn eich barn chi.

Atodiad 1

- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu cam-ddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir yr ydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gyngor Gwynedd ac yn ymwneud â:
 - rheolwyr;
 - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

Sylwadau ar y datganiadau ariannol

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Mae'r datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau. Mae effeithiau camddatganiadau heb eu cywiro a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol ac ar y cyfan, i'r datganiadau ariannol a gymerwyd yn ei gyfanrwydd. Mae crynodeb o'r eitemau hyn wedi'i nodi isod:

- Camddatganiad dosbarthiad o £ 5.640m o fewn y reserfau a glustnodwyd.

Sylwadau gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Atodiad 1

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol gwir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Cyngor Gwynedd ar 27 Medi 2018.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod y wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Ni fyddwn yn cywiro'r camddatganiad sy'n berthnasol i'r taliad i'r Gronfa Bensiwn, gan mai effeithio'r dosbarthiad o fewn y reserfau a glustnodwyd yn unig y mae, ac nid yw'n cael effaith ar gyfanswm y reserfau a glustnodwyd.

Llofnodwyd gan:

Dafydd L Edwards
Pennaeth Cyllid
Cyngor Gwynedd

Dyddiad:

Llofnodwyd gan:

Cyngorydd R. Medwyn Hughes
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
Cyngor Gwynedd

Dyddiad:

Atodiad 2

Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Aelodau Cyngor Gwynedd

Adroddiad yr archwilydd annibynnol o Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Gwynedd.

Adroddiad ar archwiliad y datganiadau ariannol

Barn

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol a nodiadau cysylltiedig Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Gwynedd yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu pwysig.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2017-18 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2018 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2017-18.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol yn fy adroddiad.

Rwy'n annibynnol ar y cyngor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, yn cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r cyngor i

Atodiad 2

barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Gwybodaeth arall

Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad fel archwilydd arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Adrodd ar ofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2017-18;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yn sgil gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cyngor a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Atodiad 2

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 7, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r cyngor i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Anthony J Barrett
Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru
28 Medi 2018

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Atodiad 3

Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw Aelodau'r pwyllgor Archwilio atynt

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi'r camddatganiadau canlynol a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm am y cywiriad |
|-------------------|--|--|
| £1,629,000 | Nodyn 17 - Offerynnau Ariannol Nodwyd bod y naratif o dan y tabl ymrwymadau ariannol yn nodyn 17b o'r datganiadau ariannol yn nodi bod credydwy'r tymor byr yn cynnwys £937k nad yw'n bodloni'r diffiniad o ymrwymadau ariannol. Gan gynnwys balans y credydwy'r yn y nodyn hwn o £54,007k, mae hyn yn rhoi gyfanswm o £54,994k. Fodd bynnag, yn ôl nodyn 21 o'r datganiadau ariannol nodwyd cyfanswm y credydwy'r fel £56,573k. | Roedd cyfanswm y balans credydwy'r o fewn nodyn 21 o'r datganiadau ariannol yn gywir ac nid oedd y balansau a gynhwyswyd yn nodyn 17 yn cysoni â hyn gyda gwahaniaeth o £1,629k. |

Atodiad 4

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2017-18

Gwnaethom amlinellu'r holl argymhellion yn deillio o'n harchwiliad ynghyd ag ymateb y rheolwyr iddynt. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y rhain y flwyddyn nesaf, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n weddill yn adroddiad archwilio'r flwyddyn nesaf:

| Mater yn codi 1 – Rheolaethau o Gwmpas Cyflawnrwydd Croniadau | |
|--|---|
| Canfyddiadau | Cyflawnrwydd Croniadau Bob blwyddyn mae'r Uwch Reolwr Cyllid yn anfon dogfen yn cyfarwyddo staff bod unrhyw anfonebau sy'n ymwneud â 2017/18 yn cael eu gynnwys yn yr uned brynu erbyn 4 Ebrill 2018, ac ar ôl y dyddiad hwn, caiff reserf credydwy ei greu ar gyfer unrhyw waith dros £100 lle mae'r gwaith wedi'i dderbyn cyn 31 Mawrth 2018. Darperir rhestr o'r fath achosion i'r cyfrifwyr adrannol sydd wedyn yn codi cronid o fewn y system ariannol. Cynhelir adolygiad ariannol chwarterol ac fel rhan o hwn mae'r cyfrifwyr adrannol yn gyfrifol am adolygu incwm/gwariant sylweddol yn eu meysydd a darparu esboniadau ar gyfer amrywiadau o'r fath, byddai hyn yn caniatáu i'r cyfrifwyr adrannol nodi unrhyw wariant na chafodd ei bostio. Nodwn nad yw'r rheolaeth hon yn sicrhau cyflawnrwydd gwariant, gan nad yw'r broses a ddisgrifir uchod yn cael ei ddilyn i fyny i sicrhau bod cronidau priodol wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol ar gyfer 2017/18. |
| Argymhelliad | Argymhellir bod y Cyngor yn gweithredu rheolaeth mewn perthynas â chyflawnder cronidau. Gallai hyn olygu adolygiad o wariant a mewnbwyd i'r system gyllid ar ôl diwedd y cyfnod, gyda'r adolygiad hwn wedi'i ddogfennu mewn papur gwaith, ynghyd â sylwebaeth o ba cyfnod sy'n berthnasol i'r wariant yma, i sicrhau bod y gwariant wedi'i gronni fel y bo'n briodol. Dylai'r papur gwaith hwn gael ei adolygu wedyn gan ail aelod o staff. |
| Blaenoriaeth | Isel |
| Buddiannau gweithredu'r argymhelliad | Trwy weithredu'r argymhelliad hwn, mae hyn yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod yr holl gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol wedi'u hadlewyrchu o fewn y datganiadau ariannol. |
| Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr | Na |

Atodiad 4

| | |
|---------------------------|--|
| Ymateb rheolwyr | Gwneir y dasg hon fel rhan o'n gweithdrefnau cau. Teimlir bod ein rheolaethau presennol yn ddigonol i reoli'r risg a nodwyd. |
| Dyddiad gweithredu | Ni fydd yn cael ei weithredu. |

| Mater yn codi 2 – Cadarnhad o'r Balans Darpariaethau | |
|---|---|
| Canfyddiad | Er bod y tîm cyllid yn ymgynghori â rheolwyr gwasanaeth nid yw trafodaeth benodol yn digwydd gyda'r tîm cyfreithiol fel rhan o brosesau diwedd y flwyddyn, o ran cyflawnrwydd a chywirdeb y balans darpariaethau ar ddiwedd y flwyddyn. Byddai trafodaeth benodol gyda'r tîm cyfreithiol bob blwyddyn yn sicrhau bod y balans darpariaethau yn cael ei gytuno gyda'r tîm cyfreithiol cyn yr archwiliad. |
| Argymhelliad | Argymhellir bod y Tîm Cyfreithiol yn cadarnhau ar ddiwedd y flwyddyn bod y nodyn darpariaethau yn y cyfrifon yn gyflawn ac yn gywir. |
| Blaenoriaeth | Isel |
| Buddiannau gweithredu'r argymhelliad | Bydd y rheolaeth hon yn helpu i sicrhau bod balans y darpariaethau yn y datganiad ariannol yn gywir ac yn gyflawn, trwy nodi unrhyw rwymedigaethau tebygol sy'n ddyledus gan y Cyngor na fydd y tîm cyllid yn ymwybodol ohonynt. |
| Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr | Do |
| Ymateb rheolwyr | Cytunwyd |
| Dyddiad gweithredu | Cyn cau 2018/19 |

Atodiad 5

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2016-17 a 2015-16

Gwnaethom amlinellu'r holl argymhellion yn deillio o'n harchwiliad ynghyd ag ymateb y rheolwyr iddynt. Rydym wedi gwneud gwaith dilynol ar y rhain yn ystod archwiliad 2017-18 ac wedi cofnodi'r canlyniadau isod.

| Mater yn deillio 1 – Cronfeydd Ymddiriedolaeth | |
|---|--|
| Canfyddiadau 2016-17 | <p>Nodwyd bod cofnod canolog o gymynroddion yn cael ei gadw, sy'n poblogi Nodyn 40. Didynnir y cymynroddion hyn o falans banc y Cyngor gan nad asedau'r Cyngor ydynt ac felly maent yn amherthnasol iawn gan mai cyfanswm y cymynroddion a gofnodwyd ar gyfer 2016-17 yw £678k. Nodwn fod gan bob cymynrodd unigol ei chod cyfrifyfr ei hun felly gall unrhyw wariant yn erbyn y cod gael ei fonitro fel ei fod yn unol â dymuniadau'r cymynroddwr. Er mwyn pennu cywirdeb y cofnodion hyn gwnaethom ddethol sampl o gymynroddion ac o sampl o ddwy ni lwyddwyd i roi'r ddogfennaeth wreiddiol sy'n ymwneud â chymynroddion i ni ar gyfer un o'r cymynroddion.</p> <p>Noder, nid ydym wedi cynnal profion manwl ar natur y gwariant yn erbyn y gymynrodd gan nad yw hyn yn un o asedau'r Cyngor ac felly mae y tu hwnt i gwmpas ein profion.</p> |
| Argymhelliad | Argymhellir y dylid cadw'r holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â chymynroddion er mwyn sicrhau bod swm y gymynrodd a'r cyfyngiadau wedi cael eu cofnodi'n gywir. |
| Blaenoriaeth | Isel |
| Buddiannau gweithredu'r argymhelliad | Os na chedwir cofnodion cywir mewn perthynas â balansau cymynroddion a ddelir, mae risg y cyfrifir yn anghywir ar gyfer cronfeydd cymynroddion. |
| Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr | Do |
| Ymateb y rheolwyr | Yn dilyn Ad-drefnu Llywodraeth Leol ym 1996, archifwyd nifer o'r dogfennau cymynroddion gwreiddiol. Cedwir y rhan fwyaf o'r wybodaeth ar ffeil yn yr Adran Gyllid ac ar hyn o bryd mae'r Adran Gyfreithiol yn rhoi cymorth i ddod o hyd i'r wybodaeth am yr ychydig rai sy'n weddill. |
| Dyddiad gweithredu | Yn barhaus a chyn dyddiad cwblhau 2017/18. |
| Canfyddiadau 2017-18 | Fel ran o'n profion o Gronfeydd Ymddiriedolaethau yn 2017/18, ni allem gael unrhyw dystiolaeth ategol ar gyfer y ddau falans a ddewiswyd i'w profi. |

Atodiad 5

| | |
|--------------------------|---|
| Statws | Argymhelliad wedi ei ail-godi |
| Ymateb y rheolwyr | O safbwynt dogfennaeth hanesyddol, rydym yn fodlon bod pob gwaith rhesymol wedi'i wneud, heb unrhyw gynnydd pellach posibl. Mae gan gofnodion ein system ariannol gofnod llawn o'r trafodion ar gyfer pob cronfa. Wrth symud ymlaen, rydym yn hyderus bod rheolaethau digonol ar waith. |

| Mater yn deillio 2 – Canfyddiadau TG | |
|---|---|
| Canfyddiadau 2016-17 | Fel rhan o'n harchwiliad ariannol gwnaethom benodi arbenigwyr TG i helpu'r tîm archwilio wrth brofi priodoldeb systemau TG y Cyngor sy'n cael effaith uniongyrchol ar gynhyrchu'r datganiadau ariannol. Nododd yr arbenigwyr TG nifer o argymhellion sydd wedi cael eu cyfleu i'r rheolwyr. |
| Argymhelliad | Argymhellir bod y rheolwyr yn gweithio gyda'r Rheolwr TG er mwyn sicrhau y caiff yr argymhellion hyn eu rhoi ar waith yn brydlon. |
| Blaenoriaeth | Isel |
| Buddiannau gweithredu'r argymhelliad | Gwella ansawdd a chadernid y systemau TG. |
| Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr | Do |
| Ymateb y rheolwyr | Cytuno |
| Dyddiad gweithredu | Mae dau o'r argymhellion eisoes wedi eu gweithredu, gyda'r trydydd i'w weithredu yn Hydref 2017. |
| Canfyddiadau 2017-18 | Rydym yn nodi bod cynnydd wedi'i wneud yn yr ardal hon, gyda thri canfyddiad wedi'u codi sy'n berthnasol i 2017/18. |
| Statws | Argymhellion wedi ei godi mewn perthynas â chanfyddiadau 2017/18 |
| Ymateb y rheolwyr | Cytunwyd a rhai agweddau wedi'u gweithredu eisoes. |

| Mater yn deillio 3 - Ystadau | |
|-------------------------------------|--|
| Canfyddiadau 2015-16 | Fel rhan o'n harchwiliad ariannol gwnaethom benodi arbenigwr prisio i helpu'r tîm archwilio i brofi priodoldeb datgeliad IAS 16. Mae'r prisiwr arbenigol wedi nodi nifer o feysydd i'w gwella sy'n ymwneud yn bennaf â gweithdrefnau a phrosesau ynghylch y prisiadau a gyflawnwyd gan y Rheolwr Ystadau yn unol â'r |

Atodiad 5

| | |
|---|---|
| | cyfarwyddiadau a ddarparwyd gan yr adran gyllid. Mae'r argymhellion hyn wedi eu cyfleu i'r rheolwyr. |
| Argymhelliad | Argymhellir bod y rheolwyr yn gweithio gyda'r Rheolwr Ystadau er mwyn sicrhau y caiff yr argymhellion hyn eu rhoi ar waith yn amserol. |
| Blaenoriaeth | Canolig |
| Buddiannau gweithredu'r argymhelliad | Gwella ansawdd a chadernid y broses brisio. |
| Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr | Do |
| Ymateb y rheolwyr | Cytuno a gweithredwyd ar rai agweddau eisoes |
| Dyddiad gweithredu | Mae gwelliannau wedi'u gweithredu ar sail argymhellion y llynedd. Bydd y Cyngor yn ymdrechu i barhau i wella yn yr ardal hon o fewn yr adnoddau sydd ar gael. |
| Canfyddiadau 2016-17 a 2017-18 | <p>Nododd ein harbenigwyr fod gweithdrefnau priodol ar waith lle mae Tîm Cyllid y Cyngor yn cyfarwyddo ei dîm/prisiwr ystadau yn fewnol, i gynnal y prisiadau angenrheidiol bob blwyddyn. Mae'r cyfarwyddiadau'n cyfeirio at y rhaglen dreigl pum mlynedd o brisiadau a'r gofynion priodol i gynnal ailbrisiadau o asedau dethol bob blwyddyn ynghyd ag amserlenni'r categorïau penodol i'w prisio bob blwyddyn fel rhan o'r rhaglen dreigl pum mlynedd. O ran y prisiadau a gynhelir gan brisiwr mewnol y Cyngor, mae ein harbenigwyr yn fodlon bod canllawiau cywir RICS, IFRS, IAS a CIPFA wedi eu dilyn, a bod y fethodoleg/seiliau prisio cywir wedi eu mabwysiadu. Fodd bynnag, mae'r arbenigwyr wedi nodi nifer o feysydd i'w gwella sy'n ymwneud yn bennaf â gweithdrefnau a phrosesau ynghylch y prisiadau a'r adroddiadau cysylltiedig gan gynnwys amseroldeb cyflawni adroddiadau prisio'r Rheolwr Ystadau yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarparwyd gan yr adran gyllid.</p> <p>Fel rhan o'n harchwiliad 2017/18 rydym wedi nodi bod gwelliannau pellach wedi'u gwneud yn y maes hwn, ac o ystyried y cynnydd a wnaed yn yr ardal hon, rydym wedi ystyried arwyddocâd y canfyddiad hwn yn ddigon isel na fyddwn yn adrodd ar y mater hon yn y blynyddoedd i ddod.</p> |
| Statws | Ni chaiff yr argymhelliad ei ail-godi. |
| Ymateb y rheolwyr | Ddim yn berthnasol |

Atodiad 5

| Mater yn codi 4 - Darpariaeth drwg-ddyledion | |
|---|---|
| Canfyddiadau 2016-17 | <p>Nodwyd bod y ddarpariaeth mân ddyledion yn cael ei chyfrifo drwy gymhwyso canrannau sefydlog at bob balans dyledwr unigol islaw £10k a chymhwyso'r canrannau at bob balans dyledwr uwchlaw £10k, lle y bo'n briodol, yn dilyn adolygiad penodol.</p> <p>Nodwn i'r canrannau a gymhwysir at y balansau mân ddyledwyr gael eu pennu yn 2002/03 ac maent fel a ganlyn:</p> <p>2016/17 – 10% 2015/16 – 10% 2014/15 – 20% 2013/14 – 50% 2012/13 ymlaen -100%</p> <p>Nid oedd yn bosibl darparu'r fethodoleg ynghylch sut y pennwyd y canrannau hyn. Fodd bynnag, mae rheolwyr wedi cadarnhau y cynhelir asesiad blynyddol o ran rhesymoldeb y ddarpariaeth ar gyfer dyledion sy'n llai na £10k.</p> |
| Argymhelliad | <p>Diwygiwyd yr Argymhelliad: Argymhellir bod y canrannau a ddefnyddir i gynhyrchu'r ddarpariaeth mân ddyledion yn cael eu hadolygu'n ffurfiol bob blwyddyn ac y defnyddir dull o ddadansoddi cyfraddau casglu er mwyn llywio'r canrannau a bennir.</p> |
| Ymateb y rheolwyr | Cytuno |
| Canfyddiadau 2017-18 | <p>Fe wnaethom nodi bod y fethodoleg a ddefnyddiwyd i hysbysu'r ddarpariaeth wedi cael ei adolygu a diweddariad i'r papur gwaith wedi'i gynhyrchu.</p> <p>Rydym wedi gwneud argymhellion i'r rheolwyr o ran gwelliannau pellach i'r wybodaeth a gynhyrchir mewn perthynas â heneiddio dyledwyr, fodd bynnag, o ystyried y cynnydd a wnaed, rydym yn hapus i gau'r argymhelliad hwn.</p> |
| Statws | Ni chaiff yr argymhelliad ei ail-godi. |
| Ymateb y rheolwyr | Ddim yn berthnasol |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru